**HWB CYMUNEDOL DOLWYDDELAN (CAPEL BETHEL)**

Y mae Capel Bethel ynghanol y pentref, yn gapel Annibynwyr sydd bellach yn anghynaliadwy. Y mae y rhai sy'n gyfrifol am y Capel yn y broses o'i roi ar werth.

Mae'r adeilad yn ofod cymunedol eang, a'r safle mewn man canolog yn y pentref ar briffordd yr A470. Mae'n debygol y byddai yna gryn ddiddordeb i brynu'r eiddo. Mae grwp bychan o drigolion Dolwyddelan yn edrych ar y posibilrwydd o gael yr adeilad i ddefnydd y gymuned, drwy ryw ffurf o gymdeithas nid am elw, ble byddai adnoddau yn y dyfodol yn gallu cael eu hailfuddsoddi yn y gymuned.

Ym mis Ebrill llwyddodd y grwp i gael arian gan grantiau bychain Perthyn, sy'n cael ei weinyddu gan Cwmpas. Hyn i ariannu ymgynghorydd i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ac i wneud astudiaeth dichonoldeb ar ddeilliannau o'r ymgynghoriadau parthed Capel Bethel. Y mae'r arolwg papur ac ar lein, a'r adborth cychwynnol bellach wedi eu cwblhau.

Y mae'r adborth cychwynnol wedi adnabod pedwar prif faes i'w hystyried, sydd yn cynnwys; tai/llety, trafnidiaeth, pobl ifanc a chaffi. O ganlyniad i'r arolwg, y mae hwylusydd tai y Cyngor lleol wedi cytuno i wneud arolwg o anghenion tai Dolwyddelan. Bydd y tri phwnc arall yn cael eu cynnwys mewn cynllun cymunedol a ysgrifennir gan yr ymgynghoryddd. Bydd y cynllun hwn yn cael ei rannu gyda grwpiau a sefydliadau y pentref er mwyn cynorthwyo i gael cynllun effeithiol ar gyfer anghenion y gymuned.

Yn ychwanegol, bydd astudiaeth dichonoldeb gynnar i ran 3 o'r arolwg i ddatblygiad Bethel fel caffi ac unedau llety yn cael ei amlinellu. Bydd gwybodaeth lawn am y ddwy ddogfen yma yn cael eu cyflwyno mewn cyfarfod ar **dydd Sadwrn, Fedi 16, 2-4pm** yn y Pafiliwn. Bydd croeso i bawb. Bydd y penwadau o'r canlyniadau yn cael eu rhannu ar wefannau cymdeithasol pan ddônt i law.

Mae'n debygol y bydd datblygu pellach o rhan 3 angen mwy o gyllid er mwyn gallu ariannu rheolwr prosiect/gweithiwr cymunedol i oruchwylio codi cyfalaf i brynu'r adeilad a rhedeg y cynlluniau a amlygwyd yn y cynllun cymunedol. Bydd parhad y prosiect yn ddibynnol ar ddigon o bobol efo'r amser a'r dyfalbarhad i wneud iddo weithio. Felly os ydi'r prosiect yma yn rhywbeth yr hoffech ei weld yn y pentref , dyma'r amser i'w gefnogi a rhoi o'ch amser ac ynni i symud hyn yn ei flaen.

*Grwp y prosiect*